



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

**Cofnodion Wedi'i Gadarnhau y Pwyllgor Ansawdd,
Diogelwch a Gwella a Gynhaliwyd am 9.30am ar 16 Mai 2023 yn 2
Capital Quarter a thros Microsoft Teams**

Yn Bresennol:		
Diane Crone	(DC)	Cadeirydd y Pwyllgor a Chyfarwyddwr Anweithredol (Prifysgol)
Sian Griffiths	(SG)	Cyfarwyddwr Anweithredol (Iechyd y Cyhoedd) a Chadeirydd y Pwyllgor Gwybodaeth, Ymchwil a Hysbysrwydd
Jan Williams	(JW)	Cadeirydd y Bwrdd
Hefyd yn Bresennol:		
Rhiannon Beaumont-Wood	(RBW)	Cyfarwyddwr Gweithredol Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd
Liz Blayney	(LB)	Is-ysgrifennydd y Bwrdd a Rheolwr Llywodraethu'r Bwrdd
Angela Cook	(AC)	Is-gyfarwyddwr Ansawdd a Nyrsio, Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd
Felicity Hamer	(FH)	Pennaeth Strategaeth ac Arloesi Gwelliant Cymru, Gweithrediaeth y GIG (ar ran John Bolton ar gyfer eitem 4.1)
Sharon Hillier	(SH)	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Sgrinio (Ar gyfer eitem 4.5)
Wayne Jepson	(WP)	Arweinydd y Rhaglen / Cynghorydd Gwelliant (Gadawodd 12:08)
Angela Jones	(AJo)	Cyfarwyddwr Iechyd a Lles Dros Dro
Meng Khaw	(MK)	Cyfarwyddwr Cenedlaethol Diogelu Iechyd a Sgrinio, Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol
Jennie Leleux	(JL)	Arweinydd Nyrsio ar gyfer Atal a Rheoli Heintiau (Ar gyfer eitem 5.4)
Louise Mann	(LM)	Cyfarwyddwr Diogelu Cynorthwyol (Arsylwi eitem 3)
Aideen Naughton	(AN)	Cyfarwyddwr Gwasanaethau y Gwasanaeth Diogelu Cenedlaethol (Ar gyfer eitem 3)
Donna Newell	(DN)	Arweinydd Diogelu Penodol (Ar gyfer eitem 3)

Sarah Nicol-Hughes	(SNH)	Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Chris Orr	(CO)	Pennaeth Ystadau ac Iechyd a Diogelwch/Rheolwr Cyffredinol Gweithrediadau a Chyllid (Ar gyfer eitem 5.2)
Jessica Taylor	(JT)	Swyddog Cymorth Gwella Ansawdd ac Archwilio Clinigol (Ar gyfer eitem 5.3)
Christopher Thomas	(CT)	Rheolwr Llywodraethu a Rheolwr Cyffredinol
Francesca Thomas	(FT)	Pennaeth Gweithio i Wella (Ar gyfer Eitem 4.3)
Paul Veysey	(PV)	Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Uned Fusnes y Bwrdd
Stephanie Wilkins	(SW)	Cynrychiolydd Undeb Llafur

Ymddiheuriadau

John Boulton	(JB)	Cyfarwyddwr Cenedlaethol Gwella Ansawdd a Diogelwch Cleifion y GIG/Cyfarwyddwr Gwelliant Cymru
Kate Eden	(KE)	Is-gadeirydd y Bwrdd, a Chyfarwyddwr Anweithredol
Olusola Okhiria	(OO)	Cynrychiolydd Undeb Llafur

Dechreuodd y cyfarfod am 09:30

QSIC 16/05/2023/1

Croeso, Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau

Agorodd y Cadeirydd y cyfarfod a chroesawu pawb a oedd yn bresennol.

Nododd y Pwyllgor yr ymddiheuriadau uchod.

Nododd y Pwyllgor fod y cyfarfod yn cael ei recordio i gefnogi cywirdeb y cofnodion, a byddai'r recordiad yn cael ei ddileu ar ôl cytuno ar y cofnodion yn y cyfarfod dilynol.

QSIC 16/05/2023/2

Datgan Buddiannau

Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau yn ychwanegol at y rhai sydd eisoes wedi'u cofnodi ar y Gofrestr Datganiadau o Fuddiannau.

QSIC 16/05/2023/3

Sesiynau Craffu Manwl: Diogelu

Cyflwynodd RBW y sesiwn craffu manwl ar ddiogelu, gan amlygu'r broses o ailgyflwyno straeon am brofiadau defnyddwyr gwasanaeth a gynhwysir o fewn yr eitem hon.

Cyflwynodd DN stori am brofiad defnyddiwr gwasanaeth, gan amlygu'r ffordd y llwyddodd i ddefnyddio ei chwilfrydedd proffesiynol a chyfrifoldebau diogelu i ganfod achos diogelu posibl ym maes Microbioleg. Esboniodd o ganlyniad i hynny, cafwyd camau gweithredu dilynol a rhoddwyd newidiadau ar waith, megis gwelliannau ym maes Microbioleg ar lefel Cymru Gyfan, a gweithio

mewn partneriaeth â'r Gwasanaeth Microbioleg, datblygu Gweithdrefn Weithredu Safonol i wella trefniadau gweithredu ym maes diogelu.

Amlygodd DN hefyd fod angen gwella chwilfrydedd proffesiynol gan amlinellu cynllun i sefydlu ac i ddatblygu'r hyfforddiant sydd ar gael i godi ymwybyddiaeth o gyfrifoldebau diogelu pob aelod o staff.

Trafododd y Pwyllgor:

- Bwysigrwydd chwilfrydedd proffesiynol, her a champau gweithredu cadarnhaol i godi ymwybyddiaeth o'r cyfrifoldeb hwn;
- Yr angen i sicrhau bod y pecyn hyfforddi ESR yn ddigonol ac ar y lefel gywir ar gyfer y sefydliad: cafodd chwilfrydedd proffesiynol ei ddysgu ar lefel hyfforddi uwch na'r hyn fyddai angen i'r mwyafrif o'r staff ei gwblhau. Nodwyd fod sesiynau wedi cael eu cyflwyno i gynyddu eu gwybodaeth ac i alluogi llysgenhadon diogelu a chynlluniwyd gwaith i ddatblygu hyn ymhellach;
- Y broses o ystyried rôl tîm arwain y system ehangach o ran hyfforddi meddygon teulu, ESR a chynorthwyo i ddatblygu arfarnwyr;
- Y buddiannau posibl yn sgil cynnal ymarfer edrych yn ôl oedd i ganfod unrhyw gyfleoedd eraill a gollwyd, gan nodi y gellid cynnal archwiliad / sampl, ond cafwyd materion ehangach hefyd sydd angen sylw megis gwella'r dulliau a'r systemau sydd wedi'u sefydlu i nodi ac i godi pryderon. Y gobaith oedd y byddai datblygu Gweithdrefn Gweithredu Safonol yn cynorthwyo i wella'r broses o gofnodi Datix a lleihau achosion posibl yn y dyfodol. Dywedodd SW y byddai'n cefnogi ymdrechion i wella'r ffordd o gofnodi pryderon Datix ymysg y staff.

Rhoddodd DN drosolwg o'r Adroddiad Diogelu Blynyddol ar gyfer 2022-23, gan amlygu'r prif ddangosyddion perfformiad ar gyfer Diogelu, y gwaith a wneir gyda chyfarwyddiaethau unigol i wella cydymffurfiaeth, a chyflawniadau allweddol megis cyflwyno dadansoddiad o'r anghenion hyfforddi a hyfforddiant pwrpasol. Soniodd DN am y gwelliannau a gynlluniwyd ar gyfer 2023-24, sy'n cynnwys gwaith datblygu parhaus gyda'r adran Microbioleg, a pharhau i ganolbwyntio ar y darn o waith 'Y Ffordd Gywir: Dull Gweithredu Seiliedig ar Hawliau Plant'. Rhoddodd DN sicrwydd i'r Pwyllgor fod y Sefydliad yn cydymffurfio â'r dyletswyddau deddfwriaethol a chadarnhaodd RBW fod trefniadau llywodraethu priodol wedi'u sefydlu i gefnogi hyn, gan gynnwys Arweinydd Diogelu Anweithredol penodedig sef Jan Williams.

Cafodd y Pwyllgor **sicrwydd** ynghylch y cynnydd a wnaed i fodloni'r dyletswyddau diogelu statudol a'r cynlluniau sydd ar y gweill yn Adroddiad Diogelu Blynyddol 2022-23.

Aeth AN ymlaen i gyflwyno'r Gwasanaeth Diogelu Cenedlaethol, sef wyneb allanol y gwasanaeth o ran arbenigedd ac arweinyddiaeth ar ddiogelu ar ran y GIG. Amlygodd AN Gynhadledd y Rhwydwaith Diogelu GIG Cymru ac

amlygu Prif flaenoriaethau'r Rhwydwaith ar gyfer 2023/24, sy'n cynnwys datblygu dangosyddion a mesurau ansawdd mewn systemau diogelu, gwell hyfforddiant ac archwilio'r broses o ddatblygu canolfan arweinyddiaeth ddigidol ar ddiogelu.

Trafododd y Pwyllgor:

- Gysylltiadau â gofal sylfaenol a chyfleoedd posibl i wella tyniant ac i nodi arweinwyr mewn gofal sylfaenol;
- Meysydd pwysig y gellir canolbwyntio arnynt ymhellach y tu allan i'r cyfarfod, megis nodi cyfresi data cenedlaethol, dangosyddion i weithio mewn partneriaeth ag Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) a dangosyddion ar gyfer partneriaethau amlddisgyblaethol.

Ystyriodd y Pwyllgor y broses o addasu'r Gwasanaeth Diogelu Cenedlaethol a'r diweddariad gan Rwydwaith Diogelu GIG Cymru, a **nodi'r** cynnydd a wnaed ar lefel genedlaethol, gan gynnwys cyfraniad Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Diolchodd y Pwyllgor i DN ac AN am eu trosolwg cynhwysfawr ar Ddiogelu yn eu meysydd priodol.

QSIC 16/05/2023/4

Eitemau er Sicrwydd

QSIC 16/05/2023/4.1

**Diweddariad ar Weithredu'r Ddyletswydd
Gonestrwydd a'r Ddyletswydd Ansawdd**

Rhoddodd AC ddiweddariad ar y cynnydd i weithredu'r Ddeddf Dyletswydd Gonestrwydd (DOC) o fewn y Sefydliad, gan nodi'r broses o ddatblygu polisi a gweithdrefn a deunyddiau hyfforddi perthnasol ac ymgysylltu staff er mwyn lliniaru unrhyw risgiau a phryderon posibl.

Aeth AC ymlaen i sôn am astudiaethau achos a'r cais terfynol am Ddyletswydd Gonestrwydd. Nododd AC mai amcangyfrif o'r goblygiadau o ran adnoddau ar gyfer y cais am DOC oedd oddeutu 200 awr y flwyddyn, yn seiliedig ar achosion blaenorol, ond ceir achosion posibl lle gellid lleihau'r gofynion am adnoddau ar ôl rhoi'r dulliau ansawdd a gwella ar waith. Daeth AC â'r diweddariad i ben drwy nodi'r camau nesaf i gryfhau'r broses o hyfforddi a dysgu o'r cais am DOC.

Aeth FH ymlaen i roi diweddariad i'r Pwyllgor ar y cynnydd a wneir i weithredu'r Ddeddf Dyletswydd Ansawdd, sy'n cynnwys datblygu camau gweithredu'r map ffordd cenedlaethol a mynd ati i gyflawni'r cerrig milltir sy'n ymwneud â chyfathrebu, ymgysylltu a hyfforddi. Amlygodd FH y risgiau posibl i Weithrediaeth GIG Cymru ar ôl symud i Gwelliant Cymru, gan nodi'r ddibyniaeth ar wybodaeth genedlaethol.

Nododd y Pwyllgor eu bod yn gydnaws ag elfennau y Fframwaith Llywodraethu Clinigol, a oedd am gael eu hystyried yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor

Cafodd y Pwyllgor **sicrwydd** ynghylch y cynnydd a wnaed i weithredu'r Ddeddf Dyletswydd Gonestrwydd a'r Ddeddf Dyletswydd Ansawdd o fewn Iechyd Cyhoeddus Cymru.

QSIC 16/05/2023/4.2

Rheoli Risgiau

QSIC 16/05/2023/4.2

Y Gofrestr Risgiau Corfforaethol a Strategol

Cyflwynodd RBW y Gofrestr Risgiau Corfforaethol a Strategol o fewn cylch gwaith y Pwyllgorau, gan nodi fod y risgiau strategol wedi'u diweddarau am gael eu hystyried yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd.

Gan gyfeirio at Risg Strategol 1 ar ran Tracey Cooper, cadarnhaodd RBW fod y diweddariad i'r Gofrestr Risg yn parhau i fod yn gyfredol.

Aeth MK ymlaen i roi diweddariad ar Risg Strategol 2, gan nodi ei fod yn hyderus iawn y gellir eu cyflawni. Dywedodd MK hefyd y caiff diweddariadau pellach i'r risg hwn a risgiau corfforaethol perthnasol eu hamlygu o fewn y Diweddariad i'r Gwasanaeth Sgrinio (eitem 4.5).

Daeth MK â'r diweddariad i'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol i ben drwy gyfeirio at risg 308, a nodi'r cynnydd da a wnaed i'r gwasanaeth clinigol cyfun o fewn Gwasanaeth Microbioleg Gogledd Cymru.

Ystyriodd y Pwyllgor y Gofrestr Risgiau Corfforaethol a Strategol sy'n berthnasol i gylch gwaith y Pwyllgor a chafodd **sicrwydd** fod risgiau Corfforaethol a Strategol y sefydliad yn cael eu rheoli'n briodol.

QSIC 16/05/2023/4.3

Gweithio i Wella Ch4 2022-23 gan gynnwys Cofnodi Achosion Cenedlaethol.

Cyflwynodd FT adroddiad Gweithio i Wella Chwarter 4 2022-23, a rhoi trosolwg o un o'r achosion a nodwyd yn genedlaethol a dau achos nad yw'n syndod, gan nodi bod ymchwiliadau ar y gweill, a byddai'r gwersi a ddysgwyd yn cael eu rhoi ar waith.

Aeth FT ymlaen i gyflwyno'r Dangosfwrdd Ansawdd i'r Pwyllgor, sy'n cynnwys achosion; categorïau ac is-gategorïau achosion; a chwynion (ffurfiol ac anffurfiol) ar gyfer chwarter 4, 2022-23. Amlygodd FT y gwaith o wella rhwng y tîm Ansawdd a'r adran Microbioleg i wella categorïau'r data ar y dangosfwrdd, y cymorth a ddarparwyd i'r sefydliad o ran ansawdd a gwella, megis nodi meysydd i'w gwella o fewn isadrannau, a chefnogi timau i ddatblygu cynlluniau gweithredu digonol.

Fe wnaeth y Pwyllgor:

- Groesawu astudiaeth achos ar ddysgu gweithredol yn y dyfodol a gofyn am amser fwy penodol ar gyfer camau gweithredu mewn fersiynau yn y dyfodol.

Camau Gweithredu: FT

- Ystyriodd yr achosion ar gyfer sgrinio serfigol, a oedd yn cynnwys achosion y gellir eu cysylltu â Gofal Sylfaenol, a nodi'r atebion posibl i wella ansawdd megis atgyfeiriadau electronig.

Daeth FT â'r cyflwyniad i ben drwy roi trosolwg o adroddiad blynyddol Gweithio i Wella ar gyfer 2022-23, gan amlygu'r gostyngiadau perthnasol a gofnodwyd ar gyfer achosion a chwynion ffurfiol. Nododd FT mai'r rheswm mwyaf tebygol am hyn oedd adfer gwasanaethau'r sefydliad ar ôl y pandemig.

Diolchodd y Pwyllgor i FT am ei chyflwyniad a:

- Chafodd **sicrwydd** bod Gweithio i Wella yn cael ei reoli'n effeithiol;
- Cafodd **sicrwydd** o Adroddiad Blynyddol Gweithio i Wella 2022-23.

QSIC 16/05/2023/4.4**Egwyl****QSIC 16/05/2023/4.5****Diweddariad ar y Gwasanaethau Sgrinio**

Cyflwynodd SH y Diweddariad ar y Gwasanaethau Sgrinio, sy'n rhoi ddiweddariad o'r cynnydd o ran y gwaith a wneir i adfer y rhaglenni sgrinio sy'n weddill ers y diweddariad diwethaf i'r Pwyllgor ym mis Rhagfyr 2022. Roedd SH yn falch o allu rhoi gwybod bod y Gwasanaeth Sgrinio Ymlediadau Aortig Abdomenol (YAA) wedi'i adfer ym mis Mawrth 2023.

Rhoddodd SH friff i'r Pwyllgor ar y prif gyfyngiadau i adfer Bron Brawf Cymru gan gynnwys capasiti'r gweithlu, ac aeth ymlaen i amlygu'r cynlluniau i gefnogi'r broses adfer, megis gweithredu'r gwasanaeth symudol newydd yn llawn.

Fe wnaeth y Pwyllgor:

- Gyfeirio at yr [erthygl](#) yn y British Journal for Cancer sy'n sôn am effaith ragamcanol cyfyngiadau symud COVID-19 ar farwolaethau canser y fron yn Lloegr o ganlyniad i roi'r gorau i Sgrinio'r boblogaeth: amcangyfrif cenedlaethol, a chwestiynu effaith yr oedi ar boblogaeth merched Cymru. Nododd SH a MK yr anawsterau i adlewyrchu'r adolygiad gan gymheiriaid yng Nghymru yn effeithiol, ond cawsant wybod eu bod wedi bod mewn cysylltiad â'r Gyfarwyddiaeth Gwybodaeth i gynnal gwaith ymchwil pwrpasol. Byddant hefyd yn gofyn am gyngor i'r byd academiaidd fel y bo angen. Awgrymodd y Pwyllgor y dylai SH ystyried p'un a oedd gan Bwyllgor Sgrinio Cymru unrhyw ffocws perthnasol ar gyfer ei effaith yn y dyfodol ac i anfon negeseuon at y cyhoedd y tu allan i'r cyfarfod.
- Nodi yn wahanol i'r Rhaglenni Sgrinio eraill a adferwyd, fod pob agwedd ar lwybr Bron Brawf Cymru yn dibynnu ar fewnbwn arbenigol, ac ni ellir clirio'r llwybr gan ddefnyddio technoleg. Ystyriwyd y gofyniad am weithlu arbenigol fel Risg Strategol ar gyfer y system gyfan, o fewn Risg Strategol 2.
- Cyfeirio at ymholiadau gan Archwilio Cymru ar risg strategol posibl sy'n ymwneud â Strategaeth Ystadau y Sefydliad, gan nodi bod yr angen i

wella Ystâd ein Gwasanaeth Sgrinio yn barhaus hefyd yn cael ei ystyried o fewn Risg Strategol 2.

Aeth SH ymlaen i roi diweddariad ar y cynlluniau i adfer Gwasanaeth Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru (DESW), gan gynnwys y cynnydd i optimeiddio'r model cyfredol, ac i drawsnewid y gwasanaeth. Gan roi briff i'r Pwyllgor am yr oediadau, nododd SH fod y rhaglen yn gweithredu ar y lefelau a welwyd cyn y pandemig, ac mai un o'i flaenoriaethau oedd sicrhau bod pobl newydd ar y llwybr, gan gynnwys gwella'r wybodaeth i Gymunedau er mwyn iddynt dderbyn y cynnig.

Trafododd y Pwyllgor y tirlun iechyd cyhoeddus ehangach er mwyn cynyddu'r galw am sgrinio a rôl sgrinio mewn atal.

Nododd y Pwyllgor y byddai'r Bwrdd yn ystyried goblygiadau iechyd cyhoeddus ehangach hyn fel rhan o'i adolygiad o'r Dangosfwrdd Iechyd Cyhoeddus yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Mai.

Diolchodd y Pwyllgor i Is-adran y Gwasanaeth Sgrinio am ei ymdrech i adfer y rhaglenni a chafodd **sicrwydd** bod y gwaith ar ben ffordd i adfer y Rhaglenni Sgrinio.

QSIC 16/05/2023/4.6

Diweddariad Chwemisol i Bolisiau a Gweithdrefnau

Cyflwynodd LB y diweddariad Chwemisol i Bolisiau Corfforaethol a Dogfennau Rheoli Ysgrifenedig, gan nodi yn dilyn yr adborth blaenorol a gafwyd gan y Pwyllgor Datblygu Pobl a Sefydliadol, bod diweddariad mwy manwl wedi'i ddarparu. Aeth LB ymlaen i amlygu'r broses o wella'r darlun cynnydd a'r camau a gymerir i adolygu polisiau, a rhoddwyd tri pholisi a thair gweithdrefn mewn tabl i'w cymeradwyo heddiw, ac roedd nifer ohonynt ar y trywydd cywir i gael eu cymeradwyo yng nghyfarfod y Pwyllgor ym mis Gorffennaf.

Cafodd y Pwyllgor **sicrwydd** bod y blaenoriaethu a'r cynnydd a wneir i adolygu polisiau, gweithdrefnau a dogfennau rheoli ysgrifenedig Corfforaethol eraill o fewn cylch gwaith y Pwyllgor

QSIC 16/05/2023/5

Eitemau i'w Cymeradwyo

QSIC 16/05/2023/5.1

Polisiau a Gweithdrefnau i'w Cymeradwyo

Ystyriodd y Pwyllgor y canlynol a:

- **Chymeradwyo'r** Polisi Atal a Rheoli Heintiau;
- **Cymeradwyo** Polisi a Gweithdrefn y Ddyletswydd Gonestrwydd.

QSIC 16/05/2023/5.4

Adroddiad Blynyddol Atal a Rheoli Heintiau (IPC) Corfforaethol

Cyflwynodd JL Adroddiad Blynyddol Atal a Rheoli Heintiau (IPC) Corfforaethol ar gyfer 2022-23, gan amlygu'r cynnydd da a wnaed o gymharu â'r cynllun Gwaith IPC Corfforaethol o ran archwilio gweithgareddau a hyfforddiant, gan

sicrhau cydymffurfiaeth â'r Cod Ymarfer i Atal a Rheoli Heintiau sy'n Gysylltiedig â Gofal Iechyd 2014. Daeth JL â'r cyflwyniad i ben drwy amlygu'r blaenoriaethau IPC ar gyfer 2023-24, gan nodi bod cyfraddau'r rhaglen brechu rhag y fflw ymysg y staff yn well a drwy ystyried y gwersi a ddysgwyd er mwyn gwella'r nifer sy'n ei derbyn yn ystod 2023-24.

Ystyriodd y Pwyllgor yr Adroddiad Blynyddol a chafodd **sicrwydd** bod trefniadau wedi'u sefydlu o fewn Iechyd Cyhoeddus Cymru i fodloni'r gofynion Atal a Rheoli Heintiau.

QSIC 16/05/2023/5.2

Diweddariad Iechyd a Diogelwch Ch4 2022-23 a Chynllun gwaith 2023-24

Cyflwynodd CO yr Adroddiad Iechyd a Diogelwch ar gyfer Chwarter 4 2022-23, a oedd yn rhoi trosolwg o'r gweithgareddau iechyd a diogelwch, gan gynnwys cofnodi achosion, cydymffurfio ag ystadau a hyfforddiant. Nododd CO fod yr unig Reoliad Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus (RIDDOR) a gofnodwyd yn ystod Chwarter 4 yn gysylltiedig â'r RIDDOR blaenorol sy'n ymwneud â'r Is-adran Microbioleg a gofnodwyd eisoes i'r Pwyllgor. Nododd CO fod yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch wedi cadarnhau na fyddai angen cofnodi'r achosion hyn mwyach, ond rhoddodd sicrwydd i'r Pwyllgor y byddai'r tîm yn parhau i ymchwilio'r achosion a gweithredu unrhyw welliannau angenrheidiol.

Cwestiynodd SW y broses o weithio mewn partneriaeth ag Aelodau o Staff o ran y polisiau Iechyd a Diogelwch. Cadarnhaodd CO fod cynrychiolwyr sy'n Aelodau o Staff ar y Grŵp Iechyd a Diogelwch a bod ganddynt fynediad i'r polisiau drafft a'u bod yn gallu cyfrannu atynt, gan gytuno i ddilyn unrhyw welliannau posibl i'r broses ymgynghori â SW.

Gofynnodd MK am wybodaeth bellach am y rhaglen waith sy'n rhoi sylw i lefelau Radon. Cadarnhaodd CO fod cynllun wedi'i sefydlu i fonitro lefelau Radon yn eang ar draws ystâd y Sefydliad, gan gynnwys rheoli ystâd Bron Brawf Cymru y Sefydliad yn Wrecsam.

Fe wnaeth y Pwyllgor:

- Gael **sicrwydd** bod mesurau priodol wedi'u sefydlu i fonitro cydymffurfiaeth â'r meysydd a nodwyd i'w gwella ac i roi sylw iddynt;
- **Cymeradwyo'r** Cynllun Gwaith Iechyd a Diogelwch ar gyfer 2023/24.

QSIC 16/05/2023/5.3

Adroddiad Blynyddol Archwilio Ansawdd a Chlinigol 2022-23 a Chynllun 2023-24

Cyflwynodd JT Adroddiad Blynyddol Archwilio Ansawdd a Chlinigol 2023-24, gan amlygu'r gwelliant amlwg yn nifer ac amrywiaeth yr archwiliadau a gynhaliwyd drwy gydol y flwyddyn a throsolwg o'r hyn a ddysgwyd a'r gwelliannau a wnaed o ganlyniad i hynny. Ystyriodd JT hefyd y gweithgaredd ymgysylltu o fewn y Sefydliad a'r cynllun gweithredu arfaethedig a'r nodau i

wella a'r mentrau ar gyfer 2023-24, ac roedd rhai ohonynt yn seiliedig ar yr argymhellion gan Archwilio Cymru.

Roedd aelodau o'r Pwyllgor yn falch o nodi cysylltiad a gweithgaredd archwilio gyda Chyfarwyddiaeth Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd a gwnaethant ofyn am gais systematig i gynnal gweithgaredd archwilio ehangach ar draws y cyfarwyddiaethau sy'n weddill fel rhan o'r gwaith gyda'r Fframwaith Llywodraethu Clinigol. Rhoddodd RBW fwy o fanylion am hyn, gan amlygu'r cysylltiad parhaus â Chyfarwyddiaethau.

Camau Gweithredu: JT

Fe wnaeth y Pwyllgor:

- Gael **sicrwydd** o Adroddiad Blynyddol Archwilio Ansawdd a Chlinigol 2022-23;
- **Cymeradwyo** Cynllun Archwilio Ansawdd a Chlinigol 2023-24.

QSIC 16/05/2023/5.1

Cofnodion, Cofnod o Gamau Gweithredu a Materion yn Codi o'r Cyfarfod

Ystyriodd y Pwyllgor a **chymeradwyo** cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Chwefror 2023 fel cofnod gwir a chywir o'r cyfarfod.

Nododd y Pwyllgor y diweddariad i'r camau gweithredu agored a **chymeradwyo** i gau'r camau gweithredu sydd wedi'u cwblhau o'r Cofnod o Gamau Gweithredu.

QSIC 16/05/2023/6

Argymhellion i'r Bwrdd

QSIC 16/05/2023/6.1

Trefniadau Llywodraethu'r Pwyllgor

Argymhellodd y Pwyllgor y canlynol **i'r Bwrdd**:

- Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella (QSIC) 2023/24, yn amodol ar gynnwys Angela Cook ac Angela Jones ar y rhestr o fynychwyr;

Camau Gweithredu: LB

- Cylch Gwaith diwygiedig y Pwyllgor i'r Bwrdd, gan nodi'r potensial i gynnal adolygiad a datblygiad pellach yn y dyfodol agos;
- Cynllun gwaith y Pwyllgor ar gyfer 2023/24

Nododd y Pwyllgor fod cyflwyniad a oedd yn ffurfio rhan o'r Adolygiad Blynyddol ar Effeithiolrwydd y Pwyllgor wedi'i gynnwys.

QSIC 16/05/2023/7

Eitemau i'w Nodi

QSIC 16/05/2023/7.1

Adroddiadau'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol

Nododd y Pwyllgor yr Adroddiad Archwilio Terfynol ar gyfer Hawliadau Cronfa Risg Cymru.

QSIC 16/05/2023/7.2

Adroddiad ar Rybuddion (Chwarter 4)

Nododd y Pwyllgor yr Adroddiad Rhybuddion a Hysbysiadau Diogelwch ar gyfer Ch34 22-23.

QSIC 16/05/2023/7.3		Fframweithiau a gymeradwywyd
Rhoddodd RBW wybod i'r Pwyllgor fod y Fframwaith Gyrfa a'r Fframwaith Goruchwylio Clinigol am gael eu dileu o'r agenda a'u ailystyried yng nghyfarfod y Pwyllgor ym mis Gorffennaf, mewn cydweithrediad â'r Fframwaith Llywodraethu Clinigol.		
QSIC 16/05/2023/8		Materion Gweinyddol i Gloi
QSIC 16/05/2023/8.1		Diwedd y Cyfarfod Cyhoeddus
Gofynnwyd i'r aelodau anfon e-bost at LB gydag unrhyw adborth ar gyfarfod y Pwyllgor.		
Dyddiad y cyfarfod nesaf: 18 Gorffennaf 2023.		
Daeth DC â'r cyfarfod i ben drwy hysbysu mai hwn fyddai cyfarfod Pwyllgor olaf RBW gan ei bod yn ymddeol fis Gorffennaf. Diolchodd aelodau'r Pwyllgor i RBW am ei gwaith a'i chymorth sylweddol i'r Pwyllgor a dymuno'r gorau iddi ar gyfer ei hymddeoliad.		
<i>Daeth y sesiwn agored i ben am 12:25</i>		